# Cod ymddygiad mentoriaid

## Pethau i'w gwneud

- Darparu amgylchedd diogel i'r plant sy'n bresennol yn eich sesiwn.
- Trin pob plentyn fel unigolyn, yn gyfartal a gyda pharch, dim ots beth ydy ei rywedd, oedran, crefydd, ethnigrwydd neu gred.
- Gwneud yn siŵr bod o leiaf un oedolyn i bob deg o blant os nad ydych chi'n athro sy'n rhedeg sesiwn yn eich ysgol.
- Bod yn ymwybodol o beth sy'n gyswllt corfforol priodol a dim ond gwneud cyswllt o'r fath gyda chaniatâd y plentyn.
- Parchu ffiniau personol pobl eraill.
- Gwybod beth i'w wneud os byddwch chi'n dyst i broblem diogelu neu'n cael gwybod am broblem diogelu.
- Cysylltu â ni neu â threfnwr sesiwn arall i drafod unrhyw elfennau ansicr.
- Trafod â threfnwyr eraill y sesiwn beth i'w wneud os bydd unrhyw ymddygiad gwael yn y sesiwn a gwirio a oes gan y lleoliad bolisi rheoli ymddygiad ar waith.
- Cynnig anogaeth, canmoliaeth a beirniadaeth adeiladol, briodol i'w hoedran, i'r plant.
- Cynnwys crewyr mewn gwneud penderfyniadau lle bo'n briodol.
- Defnyddiwch adnoddau sy'n briodol i oedran a dymuniadau'r grŵp.
- Anfonwch gopi at rieni o bob cyfathrebiad e-bost gydag unrhyw berson ifanc dan 18 oed.
- Annog awyrgylch cadarnhaol a chydweithredol lle mae plant yn cefnogi ei gilydd ac yn dysgu gan ei gilydd.
- Annog plant i arbrofi â chreu digidol, i gael pethau'n anghywir, ac i ddysgu gwersi cadarnhaol o'u camgymeriadau.
- Cael hwyl wrth godio!

# Cod ymddygiad mentoriaid

## Pethau i beidio â'u gwneud

- Peidiwch â threulio amser ar eich pen eich hun gyda phlant unigol. Os oes angen i chi gwrdd â phlant yn unigol, gwnewch hynny mor agored â phosib, gan adael y drws ar agor a rhoi gwybod i oedolyn cyfrifol arall am y cyfarfod.
- Peidiwch â defnyddio iaith lafar neu gorfforol sarhaus na rhywiol-awgrymog, a heriwch yr iaith honno os ydych chi'n ei gweld neu ei chlywed.
- Peidiwch â chaniatáu na chymryd rhan mewn cyswllt corfforol amhriodol o unrhyw fath. Mewn achosion lle mae angen gwneud cyswllt corfforol, e.e. i ddarparu cysur neu sicrwydd i blentyn gofidus, fe allwch chi wneud hynny ond dim ond gyda chaniatâd y plentyn.
- Peidiwch â gwneud pethau o natur bersonol ar ran plant os ydyn nhw'n gallu eu gwneud eu hunain.
- Peidiwch â chosbi plant neu bobl ifanc yn gorfforol.
- Peidiwch â neilltuo unrhyw blentyn unigol ar gyfer ffafriaeth, beirniadaeth annheg, gwawd, na sylw annymunol.
- Peidiwch â mynd â phlant ar eu pen eu hunain ar deithiau car. Os na ellir osgoi hyn, gwnewch hynny dim ond gyda chaniatâd a gwybodaeth lawn eu rhieni/gwarcheidwaid a rhywun yn y sefydliad.
- Peidiwch â chymdeithasu'n amhriodol â phlant neu bobl ifanc y tu allan i weithgareddau strwythuredig.
- Peidiwch â chyfathrebu ar sail un-i-un ag aelodau o'r sesiwn y tu allan i'r sesiwn, er enghraifft ar gyfryngau cymdeithasol neu ar y ffôn.
- Peidiwch â mynd â phlant i'ch cartref.